Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Caban Ogwen**

**Ysgol Llanllechid**
**Rachub**
**Bangor**
**LL57 3EH**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

22/04/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored.Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chaban Ogwen

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal dydd llawn |
| Darparwr cofrestredig | Meithrinfa Ogwen Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 50 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 13 Rhagfyr 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi ymgartrefu ac yn hyderus i rannu eu barn. Maent yn gwneud ffrindiau ac yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd. Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt a gallant wneud dewisiadau ynghylch sut i dreulio eu hamser. Mae'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn siarad â nhw mewn modd cynnes a chyfeillgar. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pob ardal a ddefnyddir gan y plant yn ddiogel ac yn groesawgar. Mae'r teganau a'r adnoddau o ansawdd da ac yn darparu digon o gyfleoedd i blant ddysgu a datblygu eu sgiliau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymroddedig i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli'n effeithiol, ond mae angen iddynt sicrhau bod polisïau ac asesiadau risg yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Ffurfiwyd perthnasau da gyda'r rhieni a rhennir gwybodaeth yn effeithiol, gan sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu.

| **Llesiant** | **Da** |
| --- | --- |

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu, ac yn gwneud penderfyniadau priodol ynghylch sut maent yn treulio eu hamser. Maent yn symud yn rhydd o gwmpas y gweithgareddau sydd ar gael ac yn dilyn eu diddordebau eu hunain. Mae'r plant yn gwybod y gallant ofyn am gymorth pan fydd ei angen ac maent yn hyderus i wneud hynny. Er enghraifft, maent yn gwybod y gallant ofyn i staff am gymorth i osod mwy o adnoddau, i gwblhau gweithgareddau crefft neu ar gyfer gweithgareddau a gedwir yn y cwpwrdd storio.

Mae gan y plant ymdeimlad o sicrwydd gan eu bod yn derbyn gofal gan staff y maent wedi ffurfio cydberthynas gynnes â nhw. Maent yn teimlo'n gyfforddus yn gofyn i'r staff am gysur neu sicrwydd pan fydd angen. Er enghraifft, trwy nodi eu bod am gael mwythau pan fyddant yn ansicr am bobl neu sefyllfaoedd newydd. Mae'r plant hefyd yn awyddus i gynnwys staff yn eu chwarae. Er enghraifft, wrth chwarae'n ddychmygus yn y gegin fwd, roeddent yn awyddus i 'wneud cinio' i aelodau'r staff, gan ofyn iddynt beth hoffen nhw a dangos iddynt beth roeddent wedi'i wneud.  Mae'r plant yn gwneud ffrindiau ac yn sgwrsio gyda'i gilydd yn ystod amser chwarae ac amser cinio, gan chwerthin a gwenu wrth chwarae. Mae'r plant hŷn yn dangos ystyriaeth a chyfeillgarwch tuag at y plant iau ac yn eu helpu i gymryd rhan mewn gweithgareddau heb anogaeth gan staff.

Mae'r plant yn gwrando'n dda ac yn hapus i helpu gyda thasgau a dilyn cyfarwyddiadau.  Er enghraifft, wrth ymolchi eu dwylo a defnyddio'r toiled cyn cinio. Mae'r plant yn chwarae'n dda gyda'i gilydd. Maent yn rhannu teganau, yn cymryd eu tro, ac yn cydweithio i gwblhau tasgau'n dda. Er enghraifft, wrth greu trên gan ddefnyddio byrddau sgwteri, maent yn cydweithio i gysylltu'r gwahanol rannau ac yn helpu ei gilydd i eistedd mewn rhes cyn llithro i lawr y ramp.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth trwy gwblhau tasgau drostynt eu hunain. Er enghraifft, maent yn hapus i helpu staff i roi'r teganau i gadw a thacluso ar ddiwedd gweithgareddau.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn deall ac yn dilyn  gweithdrefnau'r lleoliad i sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn iach. Mae nifer digonol o staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig ac mae unrhyw ddamweiniau a digwyddiadau sy'n digwydd yn cael eu cofnodi'n briodol a'u llofnodi gan rieni. Mae'r staff yn gwybod y weithdrefn i'w dilyn os oes ganddynt unrhyw bryderon am blentyn ac maent wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant.

Mae'r staff yn hyrwyddo ffyrdd iach o fwyta ac yfed; maent yn annog y rhieni i ddarparu byrbrydau a chinio iach ar gyfer eu plant ac yn sicrhau bod y plant yn medru cael gafael ar eu poteli diod drwy gydol y dydd. Maent yn annog y plant i ymolchi eu dwylo pan fo angen ac yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i dreulio amser tu allan yn yr awyr iach, gan sicrhau eu bod yn datblygu eu sgiliau corfforol. Fodd bynnag, nid yw’r staff bob amser yn sicrhau bod byrddau'n cael eu glanhau â chwistrell gwrthfacterol rhwng gweithgareddau ac amserau bwyd.

Mae gan y staff gydberthnasau cadarnhaol â’r plant; maent yn siarad â nhw mewn ffordd garedig a thawel ac yn darparu cysur a sicrwydd pan fydd eu hangen ar blant. Maent yn delio ag unrhyw mân anghytundebau neu ymddygiad anaddas yn gadarnhaol. Er enghraifft, trwy dynnu sylw plant neu eu hatgoffa sut i rannu a siarad yn braf pan fydd unrhyw fân anghytundebau yn digwydd. Mae'r staff yn canmol y plant yn aml drwy gydol y dydd i'w hannog i ryngweithio ac ymddwyn yn gadarnhaol.

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn gyfarwydd â'u hoff bethau a chas bethau. Maent yn casglu gwybodaeth gynhwysfawr am anghenion gofal, personol a meddygol unigol y plant cyn iddynt ddechrau mynychu’r lleoliad, sydd yn eu helpu nhw i gynllunio yn effeithiol i ddiwallu anghenion unigol. Mae’r staff yn tynnu lluniau rheolaidd o blant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn anfon y rhain at rieni gan ddefnyddio cymhwysiad ar-lein diogel a thudalen breifat ar y cyfryngau cymdeithasol.

## Yr Amgylchedd Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn deall yn gyffredinol eu cyfrifoldebau i ddarparu amgylchedd diogel i'r plant. Mae ganddynt asesiadau risg ysgrifenedig ar waith sy'n amlinellu unrhyw beryglon posibl i ddiogelwch y plant. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau ataliol ychwanegol a roddwyd ar waith yn ystod pandemig COVID-19 i helpu i leihau'r risg o ledaenu'r feirws. Roedd asesiadau risg newydd hefyd wedi'u cwblhau bob tro y prynwyd offer newydd. Fodd bynnag, nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad bob amser yn adolygu'r asesiadau risg ar gyfer y meysydd cyffredinol yn flynyddol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu ardaloedd eang ac addas i'r plant chwarae a dysgu.  Maent yn darparu dewis priodol o deganau ac adnoddau i'r plant, ac mae'r rhain yn cael eu storio fel bod y plant yn gallu cael mynediad atynt yn annibynnol. Mae'r staff yn arddangos samplau o waith y plant ar yr hysbysfyrddau, gan roi ymdeimlad o berthyn a balchder yn eu cyflawniadau i'r plant.  Caiff yr holl ardaloedd eu cynnal a'u cadw'n dda ac maent yn groesawgar i'r plant. Mae'r ardal chwarae awyr agored yn cael ei datblygu ar hyn o bryd. Er hyn, mae'r ardal chwarae awyr agored yn dal i gynnig cyfleoedd i blant ddatblygu eu dychymyg a'u sgiliau corfforol, gan gynnwys cegin fwd, offer dringo a dewis o deganau i'w gyrru.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu ystod addas o deganau ac adnoddau i'r plant sy'n briodol i'w hoedran ac mewn cyflwr da. Mae teganau ac adnoddau'n cael eu glanhau'n rheolaidd ac mae'r staff yn cadw cofnodion cywir o bryd y cyflawnir tasgau glanhau. Mae amrywiaeth o offer ar gael i helpu plant i fod yn annibynnol, gan gynnwys grisiau a seddi toiled ar gyfer plant sy'n dysgu sut i ddefnyddio poti. Mae'r staff yn darparu digon o gyfleoedd i'r plant archwilio deunyddiau naturiol a chynaliadwy. Er enghraifft, roedd y plant yn cael digon o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau coginio yn ogystal â chwarae â deunyddiau wedi'u hailgylchu a darnau rhydd yn yr ardal chwarae awyr agored. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad hefyd yn darparu digon o deganau pren, megis cegin chwarae, tai doliau a jig-sos, sy'n galluogi plant i chwarae gyda gwahanol ddeunyddiau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Maent yn rhannu eu gweledigaeth am y lleoliad yn effeithiol gyda nhw ac yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn cael eu dilyn yn effeithiol. Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol, sy’n golygu bod rhieni yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus o ran a all y lleoliad ddiwallu eu hanghenion ac anghenion eu plant. Mae polisïau'r lleoliad yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol, gan sicrhau bod staff yn gallu deall eu cyfrifoldebau. Fodd bynnag, nid yw’r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cofnodi pryd y cânt eu hadolygu.

Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn awyddus i sicrhau eu bod nhw’n datblygu ac yn gwella'r gwasanaeth y maent yn ei gynnig yn barhaus. Maent yn ceisio adborth ar lafar yn rheolaidd gan rieni yn ogystal â thrwy anfon holiaduron adborth at rieni a staff. Ceisir adborth hefyd gan blant trwy siarad â nhw ac yn ystod arsylwadau dyddiol. Er enghraifft, prynwyd mwy o sgwteri ar gyfer yr ardal chwarae awyr agored ar ôl i staff ofyn i'r plant hŷn pa offer yr hoffent eu prynu gyda'r arian a gawsant o grant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi ysgrifennu adroddiad mewn ymateb i'r adborth a dderbyniwyd. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu pa welliannau sydd eisoes wedi'u gwneud a'r rhai sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant a chymorth rheolaidd er mwyn cyflawni eu rolau yn effeithiol.  Maent wedi sicrhau bod ffeiliau staff yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol, gan ddangos bod gweithdrefnau recriwtio diogel ar waith. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi gallu mynychu hyfforddiant rheolaidd er mwyn diwallu anghenion unigol y plant, megis hyfforddiant i gynorthwyo plant ag anawsterau cyfathrebu. Gwelsom gofnodion ysgrifenedig yn dangos bod arfarniadau blynyddol a sesiynau goruchwylio staff rheolaidd wedi cael eu cynnal.

Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni yn effeithiol. Gwelsom dystiolaeth o wybodaeth a oedd wedi’i chasglu gan y rhieni yn nodi anghenion, hoff bethau a chas bethau penodol y plant. Roedd y rhieni y siaradwyd â nhw yn canmol y gofal y mae eu plentyn yn ei dderbyn yn fawr. Dywedasant wrthym fod ganddynt berthynas gadarnhaol â’r staff, a oedd yn rhannu gwybodaeth ar lafar ar ddiwedd pob sesiwn a thrwy gymhwysiad ar-lein diogel neu dudalen breifat ar y cyfryngau cymdeithasol.

**Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1- Adolygu pob asesiad risg yn flynyddol a chofnodi'r dyddiad y cynhaliwyd yr adolygiad.

A2- Adolygu polisïau'n flynyddol a chofnodi'r dyddiad y cynhaliwyd yr adolygiad.

A3- Sicrhau bod byrddau'n cael eu glanhau â chwistrell gwrthfacterol rhwng gweithgareddau ac amser bwyd i leihau'r risg o groes-halogi.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| 25 | Nid yw'r arweinwyr wedi sicrhau bod mesurau priodol ar waith i adolygu a monitro risgiau yn effeithiol. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad cyhoeddi** 14/06/2022